# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod yn yr Economi

## Ddydd Mercher, 23 Hydref 2013

**Yn bresennol:**

**Aelodau Parhaol y Cynulliad Cenedlaethol**
Christine Chapman AC**,** Llafur **(Cadeirydd)**
Jocelyn Davies AC, Plaid Cymru
Janet Finch-Saunders AC, Ceidwadwyr
Eluned Parrott AC, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Cynulliad Cenedlaethol**
Laura Dunn, swyddfa Rosemary Butler
Victoria Evans, swyddfa Christine Chapman
Ian Johnson, swyddfa Leanne Wood
Osian Lewis, swyddfa Alun Ffred Jones a Llyr Huws Gruffydd

**Aelodau Allanol**
Dr. Rachel Bowen, Rheolwr Polisi Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach
Joy Kent, Prif Weithredwr, Chwarae Teg
Christine O'Byrne, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Chwarae Teg **(Ysgrifennydd)**
Helen Reed, Swyddog Cymorth Polisi, Chwarae Teg
Shirley Rogers, Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Gyrfa Cymru

**Ymddiheuriadau:**

Dr. Alison Parken, Uwch Gymrawd Ymchwil, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd
Helen Humphrey, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
Dr. Victoria Winckler, Cyfarwyddwr, Sefydliad Bevan

### 1. Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd Joy Kent, Prif Weithredwr Chwarae Teg, bawb i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am ddod i gyfarfod agoriadol Grŵp Trawsbleidiol newydd y Cynulliad Cenedlaethol ar Fenywod yn yr Economi.

### 2. Penodi i Swyddi Allweddol - Ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd

Etholwyd Christine Chapman AC yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol a phwysleisiodd y potensial a fyddai gan y grŵp o ran cynyddu cyfle cyfartal i fenywod yng Nghymru. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen i'r grŵp ddatblygu syniadau ffres ynglŷn â pham bod cydraddoldeb i fenywod yn yr economi wedi bod mor araf yng Nghymru yn hanesyddol.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod eisoes wedi cyflwyno cwestiwn i'r Prif Weinidog ar 22 Hydref ynglŷn â'r ffaith nad yw sgiliau a doniau menywod yn cael eu defnyddio'n ddigonol a'r angen i wneud mwy o ddefnydd o'r adnodd hwn os yw menywod, sef dros hanner poblogaeth Cymru, i gyfrannu at economi sy'n ffynnu yng Nghymru.

Cytunwyd y byddai Chwarae Teg, fel partner allanol, yn cydgysylltu

gweithgareddau'r grŵp ac etholwyd Christine O'Byrne, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, yn Ysgrifennydd.

## 3. Cefndir a Gosod y cyd-destun

Yn dilyn lansiad adroddiad ymchwil llwyddiannus Chwarae Teg, *Lle'r Fenyw* (astudiaeth o rolau menywod yn economi Cymru) yng Nghymru, y DU ac Ewrop yn gynharach eleni, teimlwyd mai Grŵp Trawsbleidiol fyddai'r modd mwyaf effeithiol o ddatblygu llawer o'r materion a nodwyd yn y gwaith ymchwil. Crynhodd yr Ysgrifennydd rai o brif ganfyddiadau'r gwaith ymchwil:

- Roedd anghydraddoldeb y tu allan i'r gweithle, yn parhau i lywio anghydraddoldeb yn y gweithle
- Roedd stereoteipiau pwerus yn parhau ynghylch swyddi sy'n addas ar gyfer dynion a menywod
- Cyflogaeth oedd y drefn arferol ar gyfer menywod ond nid yw cydraddoldeb wedi'i gyflawni hyd yma
- Roedd mwy o fenywod yn gweithio, ond yn gweithio'n rhan-amser.
- Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn parhau
- O ran sgiliau a chynnydd, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn yr ysgol ond roedd mwy o fenywod wedi cymhwyso hyd at lefel 4 yng Nghymru, ond roedd mwy o fenywod mewn swyddi sgiliau a chyflog is
- Roedd menywod yn parhau i gael eu hystyried fel gofalwyr yn gyntaf a gweithwyr cyflogedig yn ail, ac er bod gweithio hyblyg wedi cynyddu, roedd diffyg gofal plant fforddiadwy yn parhau i gael ei ystyried fel y prif rwystr i gyflogaeth llawn amser.
- Yn arbennig, nid oedd gan 25% o'r menywod a holwyd fynediad i'w hawliau statudol ac nid oedd 15% o gyflogwyr yn bodloni eu hymrwymiadau statudol.

Roedd yr adroddiad yn argymell y dylai'r camau gweithredu ganolbwyntio ar fynd i'r afael â stereoteipiau, ar wahanu galwedigaethol, ar sicrhau bod cyflogwyr a gweithwyr cyflogedig yn deall eu hymrwymiadau a'u hawliau statudol, ar sicrhau bod gofal plant fforddiadwy yn cael ei ddarparu a bod y menywod hynny a oedd bellaf oddi wrth gyflogaeth yn cael cymorth i gael gwaith (yn benodol menywod hŷn a'r rhai ag anabledd neu gyflyrau tymor hir).

## 4. Rhaglen Gweithgarwch

Dosbarthodd yr Ysgrifennydd amserlen arfaethedig y cyfarfodydd a oedd yn darparu cynllun gwaith ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol o fis Hydref 2013 tan fis Chwefror 2016, yn seiliedig ar dri chyfarfod y flwyddyn. Cynigiwyd bod y materion uchod yn cael eu harchwilio'n fanwl drwy glywed profiadau menywod neu gyflogwyr unigol, ystyried gwaith ymchwil amrywiol gan bartneriaid allanol a thrwy ddod ag arbenigwyr i gefnogi'r Grŵp Trawsbleidiol wrth iddo ddatblygu argymhellion a chamau gweithredu a fyddai'n mynd i'r afael a'r rhwystrau sy'n atal menywod rhag cyrraedd eu potensial yn yr economi yng Nghymru.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol yn cyfarfod amser cinio ddydd Mercher a gofynnodd a fyddai modd cynnwys dyddiadau pendant ar gyfer 2014 yn yr amserlen arfaethedig. Anogodd y Cadeirydd yr aelodau i anfon neges e-bost ati hi neu'r Ysgrifennydd os oeddent am gynnig meysydd ychwanegol i'w trafod neu newid blaenoriaethau'r drafodaeth. **COB**

Cafwyd trafodaeth fer ynglŷn â phwnc y cyfarfod nesaf, *Gwahanu ar sail rhyw a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau* a gwnaeth y sylwadau canlynol:

- Nododd y Cadeirydd fod angen i gyflogwyr newid y diwylliant o

wahaniaethu lle mae dynion yn ben os ydynt am recriwtio mwy o brentisiaid benywaidd.

- Roedd Gyrfa Cymru yn teimlo bod angen ymyrryd yn gynharach yn addysg merched er mwyn newid eu dyheadau o ran gyrfa. Nid ydym wedi gweld y newid a ddymunwyd yn newisiadau gyrfa merched ac roedd cyfrifoldeb ar athrawon, cynghorwyr a chyflogwyr i chwalu’r stereoteipiau parhaus ar sail rhyw a gwneud pobl ifanc yn ymwybodol o’r dewis ehangaf o gyfleoedd sy’n agored iddynt.
- Roedd y grŵp am wybod beth yw oedran merched pan yn dewis a beth sy’n dylanwadu ar ddewisiadau; teulu neu grwpiau cyfoedion. Penderfynwyd y byddai Chwarae Teg yn cyflwyno’r gwaith ymchwil diweddar yn y maes hwn yn y cyfarfod nesaf. **COB**
- Penderfynwyd gofyn i Alison Parken gyflwyno gwaith ymchwil Cymru: Economi yn Ffynnu (WAVE) ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau sy’n cael ei gyhoeddi ym mis Hydref. **COB/AP**
- Adroddodd Chwarae Teg eu bod am ofyn i Techniquest roi cyflwyniad yn y sesiwn ym mis Chwefror gan fod ganddo ymyriadau arloesol ar gyfer cael mwy o ferched i ddilyn pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM).
- Gofynnodd y Ffederasiwn Busnesau Bach a fyddai modd ailedrych ar waith ymchwil Chwarae Teg er mwyn gweld a oedd unrhyw gysylltiadau â statws economaidd-gymdeithasol ac agweddau traddodiadol ar waith. **COB**
- Mae’n amlwg bod diddordeb merched a bechgyn mewn pynciau STEM yn gyfartal a byddai gan y Grŵp Trawsbleidiol ddiddordeb mewn gwybod pam nad yw merched ifanc yn dilyn gyrfaoedd mewn pynciau STEM. Cytunodd y grŵp y byddai’n fwy defnyddiol ystyried y manylion, boed hynny mewn sectorau neu bynciau STEM, yn hytrach na chyffredinoli.
- Tynnodd Eluned Parrott AC sylw’r aelodau at ddiffyg ystadegau ac ymchwil yn y gwahaniaeth rhwng y rhywiau mewn pynciau a gyrfaoedd STEM. Roedd angen gwybod beth sy’n llywio'r broses o ddewis pynciau a pham nad oes mwy o ferched yn parhau i ddilyn gwyddoniaeth a mathemateg ar lefel doethuriaeth neu ôl-ddoethuriaeth.
- Byddai Chwarae Teg yn ymchwilio i weld a fyddai modd i’r Grŵp Trawsbleidiol ar Wyddoniaeth a Thechnoleg helpu i ddarparu data o’r fath. **COB**
- Byddai Chwarae Teg yn dosbarthu eu papur ymchwil ar ddiffyg cynrychiolaeth menywod mewn sectorau anhraddodiadol. **COB**

Gofynnwyd i’r aelodau roi unrhyw syniadau neu waith ymchwil newydd i’r Cadeirydd neu’r Ysgrifennydd ac y byddent yn cael eu cyflwyno wedyn i’r Grŵp Trawsbleidiol i’w trafod. **PAWB**

## 5. Cylch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol

Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl ar yr amod bod y materion canlynol yn cael eu cynnwys ymhlith y prif faterion i’w hymchwilio: **COB**

- Menywod yn cychwyn busnesau
- Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Penderfynwyd y byddai’r rhaglen a’r cylch gorchwyl diwygiedig sydd i’w trafod yn cael eu rhoi ar dudalen we y Grŵp Trawsbleidiol ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol. **COB/VE**

Dylid rhoi unrhyw sylwadau pellach ar Gylch Gorchwyl a Rhaglen Gyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl i’r Ysgrifennydd. **PAWB**

## 6. Dyddiad Cyfarfodydd 2014

Ôl-nodyn:

Yn dilyn y cyfarfod, cynigiwyd y dyddiadau canlynol ar gyfer 2014:

**Dydd Mercher, 5 Chwefror**
**Dydd Mercher, 4 Mehefin**
**Dydd Mercher, 8 Hydref**

**CC/COB/hr**
**24/10/13**

## TAFLEN WEITHREDU I'W HADOLYGU YN Y CYFARFOD NESAF

| Cam Gweithredu | Pwy sy'n Gyfrifol | Dyddiad Gofynnol | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|
| Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol yn cyfarfod amser cinio ddydd Mercher a gofynnodd a fyddai modd cynnwys dyddiadau pendant ar gyfer 2014 yn yr amserlen arfaethedig. | **COB** | | **Cyflawni** |
| Roedd y grŵp am wybod beth oedd oedran merched pan yn dewis a beth sy'n dylanwadu ar ddewisiadau; teulu neu grwpiau cyfoedion. Penderfynwyd y byddai Chwarae Teg yn cyflwyno'r gwaith ymchwil diweddar yn y maes hwn yn y cyfarfod nesaf. | **COB** | | |
| Penderfynwyd gofyn i Alison Parken gyflwyno gwaith ymchwil Cymru: Economi yn Ffynnu (WAVE) ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau sy'n cael ei gyhoeddi ym mis Hydref. | **COB/AP** | | |
| Gofynnodd y Ffederasiwn Busnesau Bach a fyddai modd ailedrych ar waith ymchwil Chwarae Teg er mwyn gweld a oedd unrhyw gysylltiadau â statws economaidd-gymdeithasol ac agweddau traddodiadol ar waith. | **COB** | | |
| Byddai Chwarae Teg yn ymchwilio i weld a fyddai modd i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Wyddoniaeth a Thechnoleg helpu i ddarparu data o'r fath. | **COB** | | |
| Byddai Chwarae Teg yn dosbarthu eu papur ymchwil ar ddiffyg cynrychiolaeth menywod mewn sectorau anhraddodiadol. | **COB** | | |
| Gofynnwyd i'r aelodau roi unrhyw syniadau neu waith ymchwil newydd i'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd ac y byddent yn cael eu cyflwyno wedyn i'r Grŵp Trawsbleidiol i'w trafod. | **ALL** | | |
| Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl ar yr amod bod y materion canlynol yn cael eu cynnwys ymhlith y prif faterion i'w hymchwilio:<br>▪ Menywod yn cychwyn busnesau<br>▪ Bwlch cyflog rhwng y rhywiau | **COB** | | |
| Penderfynwyd y byddai'r rhaglen a'r cylch gorchwyl diwygiedig sydd i'w trafod yn cael eu rhoi ar dudalen we y Grŵp Trawsbleidiol ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol. | **COB/VE** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dylid rhoi unrhyw sylwadau pellach ar Gylch Gorchwyl a Rhaglen Gyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl i'r Ysgrifennydd. | **ALL** | | |